

## CYPE(6)-01-22 - Papur 1

### Papur gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad: 13 Ionawr 2022

Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23

#### 1. Diben

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno i ddod i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 13 Ionawr 2022 i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

#### 2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y cynigion cyllidebol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor fel y'u hamlinellwyd mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor dyddiedig 8 Tachwedd.

<b>3. Trosolwg o'r Gyllideb</b>	<b>2022-23</b>
<b>Refeniw</b>	<b>£m</b>
Llinell Sylfaen Refeniw adeg Cyllideb Derfynol 2021-22	9,227.959
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen	(445.000)
Dyraniad Prif Grŵp Gwariant	1,018.819
<b>DEL Diwygiedig adeg Cyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>9,801.778</b>
<b>Cyfalaf</b>	
Llinell Sylfaen Cyfalaf adeg Cyllideb Derfynol 2021-22	387.600
Addasiad i'r Llinell Sylfaen	(52.600)
<b>DEL Diwygiedig adeg Cyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>335.000</b>
<b>Cyfanswm Cyffredinol Cyllideb Ddrafft Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23</b>	<b>10,136.778</b>

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.*

Nodir manylion pob trosglwyddiad yn Atodiad A i'r papur hwn.

### **Tryloywder cyflwyno'r gyllideb**

- gostyngiadau/achosion o ddileu neu godiadau/ychwanegiadau yn ymwneud â meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o gymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. grantiau'n cael eu lleihau neu'n dod i ben yn llwyr/cael eu cynyddu neu eu cyflwyno);

Ni fu unrhyw ostyngiadau llinell sylfaen ar draws y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodir manylion newidiadau perthnasol i'r gyllideb ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn yr atodiad cysylltiedig. Gall y rhain gynnwys symud cyllid 'untro' mewn ymateb i COVID-19 a ddyrannwyd yn ystod 21-22.

- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli

Fel uchod, ni fu unrhyw ostyngiadau llinell sylfaen yn y gyllideb.

- ble yn union y caiff y newid hwn ei wneud yn y gyllideb ddrafft, ac a gaiff arian ei ddychwelyd i/ei dynnu o'r cronfeydd canolog neu ei ddyrannu i/o linellau eraill yn y gyllideb;

Fel uchod, ni fu unrhyw ostyngiadau llinell sylfaen yn y gyllideb

- gwybodaeth am yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddyraniadau.

Byddwn yn parhau i ymateb yn uniongyrchol i COVID-19 cyhyd ag y bo angen gwneud hynny. Rydym yn neilltuo cyllid i barhau â'n hymatebion cenedlaethol i'r pandemig parhaus, gan gynnwys y rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu, y rhaglenni brechu parhaus, a'r trefniadau ar gyfer darparu PPE am ddim i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol cyhyd ag y bo angen. Caiff y cyllid hwn ei adolygu'n barhaus wrth i ni drafod heriau cyfredol y pandemig.

Rydym wedi darparu taliad ychwanegol sylweddol i'r GIG a fydd yn rhoi sefydlogrwydd iddo wrth iddo barhau i ymateb. Ceir buddsoddiad cylchol sylweddol hefyd mewn perthynas ag adfer er mwyn galluogi'r GIG i ganolbwyntio eto ar yr ôl-groniad triniaethau pan fydd effaith y pandemig yn caniatáu hynny.

## Sylwadau ar Gamau Gweithredu a dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r tablau isod yn dangos symudiadau cyllidebol o'r gyllideb Atodol Gyntaf yn 2021-22 i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ac yn nodi'r cynnydd o £28m ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn 22-23 a chynnydd pellach o £2m yn 23-24.

CAMAU GWEITHREDU	Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu a Chefnogi Plant				
	2021-22 Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22	Newid	2022-23	Newid	2023-24
	£m	£m	£m	£m	£m
Cymru Iachach – Bel 060 (Y Blynyddoedd Cynnar)	7.000	11.500	18.500	-7.9	10.600
Cymorth i Ofal Plant a Chwarae – BEL 310	83.901	11.850	95.751	10.000	105.751
Cymorth i Hawliau Plant – BEL 311	0.991	0.029	1.020	0	1.020
Cefnogi Plant – BEL 410	3.865	0	3.865	0	3.865
Cymorth i Deuluoedd a Phlant – BEL 1085	6.004	1.971	7.975	-0.100	7.875
<b>Cyfanswm</b>	<b>94.761</b>	<b>25.350</b>	<b>108.611</b>	<b>2.000</b>	<b>129.111</b>

Mae BEL 60 yn y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu yn cynnwys y dyraniad cyllid gwreiddiol a wnaed i gefnogi Cymru Iachach. Fel rhan o'r ddarpariaeth gyllidebol hon, pennwyd llinell sylfaen o £7m i gefnogi'r Blynyddoedd Cynnar (fel ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf yn 2021). Mae'r cyllid hwn yn cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith arbenigol, Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y Cam Gweithredu Cefnogi Plant yn cefnogi'r cynnig gofal plant (sy'n ddarostyngedig i drefniadau craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Trawsnewid Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid i nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau y gallan nhw a'u teulu gael gafael ar y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu bywyd fel teulu.

**Newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â'r canlynol:**

- Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu – BEL 060 Cymru Iachach (Y Blynnyddoedd Cynnar)
- Cam Gweithredu Cefnogi Plant

**2022-23 – Cynnydd o £28m, wedi'i wrthbwyso gan addasiadau i gyllidebau eraill, mewn perthynas â sefyllfa'r gyllideb atodol gyntaf yn 21-22.**

- Gostyngiad o (£4.550m) ar Gymorth i Ofal Plant a Chwarae – BEL 310, o ganlyniad i ddyraniad ac addasiad yn ystod y flwyddyn oherwydd COVID-19.
- Cynnydd o £11.5m (o gyllid newydd) yn BEL 60 ar gyfer cyllid Cymru Iachach Y Blynnyddoedd Cynnar
- Cynnydd o £15.500m (o gyllid newydd) ar gyfer Cymorth i Ofal Plant a Chwarae mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant a Bwndeli Babanod.
- £0.029m – cynnydd (o gyllid newydd) i'r BEL Cymorth i Hawliau Plant ar gyfer ymgynoriadau cyllido â Plant yng Nghymru.
- £0.971m – cynnydd (o gyllid newydd) i'r BEL Cymorth i Blant a Theuluoedd
- Gwrth-droi £1.9m o drosglwyddiad rhwng prif grwpiau gwariant (yn 21-22) mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer Alinio'r Cyfnod Sylfaen ac £1m o gyllid Gwaith Chwarae a symudodd hefyd rhwng y BEL Cymorth i Deuluoedd a Phlant a'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae.

**2023-24 cynnydd cyffredinol o £2m**

- £2.000m – cynnydd (o gyllid newydd) i'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae, gan gynnwys y Cynnig, Bwndeli Babanod a hyfforddiant i'r Gweithlu
- Trosglwyddiadau o £7.9m ac £0.100m rhwng llinellau gwariant, i'r BEL Cymorth i Ofal Plant.

CAM GWEITHREDU	Cafcass Cymru				
	2021-22 Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22	Newid	2022-23	Newid Dangosol	Dangosol 2023-24
	£m	£m	£m	£m	£m
Costau Rhedeg Cafcass	13.378	1.073	14.356	0	14.356
Gwasanaethau Cyswllt â Phlant	0.205	0	0.205	0	0.205

Gweithgareddau Trefniadau Plant	0.069	0	00.69	0	00.69
<b>Cyfanswm Cafcass</b>	<b>13.652</b>	<b>1.073</b>	<b>14.725</b>	<b>0</b>	<b>14.725</b>

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol a gaiff ei arwain gan alw sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u buddiannau pennaf er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i'r plentyn dan sylw yn y System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teuluol ac ar wasanaethau i blant yng Nghymru, gan roi cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau y caiff anghenion teuluoedd a phlant yng Nghymru eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.

Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu, pan geir cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Llys Teulu, i gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido darpariaeth y rhaglen Gweithio gyda'n Gilydd er mwyn Plant sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad yn well er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant.

### **Newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â Cham Gweithredu CAF/CASS Cymru:**

#### **2022-23**

- £1.073m – Cynnydd yn y gyllideb er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r cynnydd yn cynrychioli cyllid ar gyfer y costau staff a'r gwasanaethau cyswllt a orchmynnir gan y llys a ddisgwylir yn 2022-23.

#### **2023-24 (dangosol)**

- Dim newidiadau.

### **Mae'r newidiadau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel a ganlyn:**

#### **Cam Gweithredu – Iechyd y Cyhoedd ac Atal**

- Cynnydd o £0.443 yn y BEL Pwysau Iach: Cymru Iach er mwyn ailalinio'r holl fesurau atal gordewdra i greu un llinell yn y gyllideb.

## **Dyrannu 'cymaint o adnoddau ag sydd ar gael' i blant a phobl ifanc**

### **Asesiad Effaith**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynnal asesiadau effaith integredig, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant, gan adlewyrchu eu nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â chynaliadwyedd a'r Gymraeg. Mae'r rhain yn parhau i fod yn ffactorau ysgogi pwysig sy'n tywys ein hystyriaethau mewn perthynas â'r Gyllideb. Rydym wedi parhau i gynnwys pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein dull gweithredu ac yn y prosesau sy'n ei ategu.

Credwn fod dull integredig yn ein galluogi i ddeall yn gliriach effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc.

O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys a sylw dyledus i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae ein Cyllideb Ddrafft flaenorol, sef 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratifau ym mhenodau pedwar a chwech, gan gynnwys nodi penderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol, gan gynnwys un sy'n cyfeirio at ein cymorth i iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Caiff asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, eu cynnal fel rhan o'n prosesau parhaus ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r trefniadau ehangach ar gyfer asesu effaith y gyllideb. Mae'r dull gweithredu hwn, yng nghyd-destun dyraniadau cyllidebol, yn sicrhau y caiff tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol ein gwaith o baratoi'r gyllideb.

Caiff rhagor o fanylion am y dull a ddefnyddir i asesu effeithiau eu cyhoeddi ar y cyd â Chyllideb Ddrafft 2022-23 ar 20 Rhagfyr.

**▪ Gwybodaeth yn dangos i ba raddau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau'r gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant.**

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi ein huchelgeisiau i wella iechyd a lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Yn unol â'n Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymedig i sicrhau Cymru fwy llewyrchus, fwy cyfartal a gwyrddach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae ein hamcanion llesiant wedi'u dylunio i gefnogi'r nodau llesiant a

sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ymdrin â'r heriau eithriadol rydym yn eu hwynebu.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf i GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi gweithgareddau rhaglen a reolir yn ganolog mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Rydym yn gweithredu yn ôl dull hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant o dan y gyllideb hon, gan roi pwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth, sef gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn Cymru Iachach, ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a'i gefnogi i gyflawni ei lawn botensial, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein dyraniadau. Mae hyn yn bwysicach nag erioed ar hyn o bryd wrth i ni geisio ymdrin ag effeithiau'r pandemig ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant a phobl ifanc.

Fel rhan o weledigaeth Cymru Iachach, rydym yn anelu at roi mwy o ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar ac rydym yn parhau i gefnogi hynny drwy gymorth cyffredinol, yn ogystal â chymorth mwy penodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni drwy Magu Plant. Rhowch Amser Iddo a ehangwyd i gefnogi rhieni plant rhwng 0 ac 18 oed; cymorth parhaus o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy gynllun ac ymgyrch lleferydd, iaith a chyfathrebu Siarad gyda fi; a buddsoddiad pellach i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn ogystal â buddsoddiad sylweddol yn y GIG, rydym yn dyrannu £28m ychwanegol ar gyfer cymorth blynyddoedd cynnar i gefnogi gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn 2022-23 a £2m pellach yn 23-24. Mae hyn yn cynnwys £13.5m ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, £2m i ddatblygu ein gwaith ar Fwndeli Babanod, £3m i ehangu'r rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar gan adeiladu ar yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio o gymorth Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a Lleferydd, iaith a chyfathrebu a £7m i barhau â gwaith pwysig y Gronfa Datblygu Plant am flwyddyn arall.

Mae ein cymorth i ofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant, ac yn benodol at y rheini sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac iachach. Gall buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach a gweithgar. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol ac yn liniaru effeithiau andwyol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant hefyd alluogi rhieni i weithio a hyfforddi ac mae'n codi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn benodol, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb
- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni hyd eithaf eu potensial
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes

Byddwn yn parhau i fframio ein dyraniadau cyllidebol yn unol â gweithgareddau ataliol, gan roi ymyriadau cadarnhaol ar waith sy'n diogelu sylfeini sy'n bodoli eisoes ac yn adeiladu arnynt, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant.

### **Dyraniadau polisi a deddfwriaeth Cyllideb Ddrafft 2022-23**

**Dyraniadau er mwyn cyflawni holl ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

**Manylion yr asesiad a wnaed o werth am arian a fforddiadwyedd cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion hyn a sut y caiff eu costeffeithiolrwydd ei fonitro.**

Mae ein pedwar prif ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc fel a ganlyn:

- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.
- Cyflwyno bwndeli babanod i fwy o deuluoedd.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Tynnir sylw at bob un o'r ymrwymadau hyn fel rhan o naratif ehangach y papur hwn ac mae dyraniadau cyllid uwch wedi'u neilltuo i bob un ohonynt fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, a hynny naill ai o'r £50m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y £5.5m ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg neu'r £50m ychwanegol ar gyfer Gofal Plant, y Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg a Theuluoedd sy'n rhan o setliadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol.

Bydd trefniadau monitro a gwerthuso eang ar waith ar gyfer yr holl ymrwymadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu, y bydd llawer ohonynt yn unol â threfniadau monitro presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer grantiau. Mae Gofal Plant a Dechrau'n Deg, yn enwedig, yn rhaglenni sefydledig ac mae systemau monitro ac adrodd cadarn eisoes ar waith ar eu cyfer. Dyrannwyd Dirprwy Gyfarwyddwr i arwain y broses o weithredu a chyflwyno pob ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd gofynion adrodd rheolaidd hefyd ar waith yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu lawn.

**Costau deddfwriaeth: Rhoi Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ar waith yn y cyfnod sy'n arwain at fis Mawrth 2022 ac yn ystod ei flwyddyn gyntaf mewn grym.**



Yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth, amcangyfrifwyd y byddai'r costau uniongyrchol a oedd yn gysylltiedig â rhoi Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) (Deddf Plant Cymru) ar waith yn dod i gyfanswm o £985,000, gan gynnwys costau'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth, gwaith ymchwil i olrhain lefelau ymwybyddiaeth ac agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, a gwaith paratoi ar gyfer cynllun gwyro.

Neilltuwyd swm o £1,585,000 yn y gyllideb yn 2021-22 ar gyfer costau gweithredu. Mae'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn y swm a gyllidebwyd, o gymharu â'r amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fel a ganlyn:

- Oherwydd y pandemig, newidiodd ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth arfaethedig ar gyfer 2020-21. Cafodd hyn effeithiau pwysig gan gynnwys y ffaith y cafodd llai ei wario nag a fwriadwyd yn wreiddiol; gostyngiad tebygol yn lefelau ymwybyddiaeth y cyhoedd; a'r ffaith bod gwaith ymgysylltu wedi parhau ond ar lefel is.
- Rydym felly wedi dyrannu £225,000 ychwanegol i'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 – gan gynyddu cyfanswm y gyllideb ar gyfer yr agwedd honno o'r broses weithredu o £800,000 i £1,025,000 – er mwyn gwella'r gwaith o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu gwaith ymgysylltu â grwpiau a chymunedau penodol lle gall fod ffactorau yn eu hatal rhag cael gafael ar wybodaeth.
- Yn ogystal, roedd cost amcangyfrifedig datblygu cynllun gwyro posibl yn ystod 2021-22, ochr yn ochr â chynllun datrysiadau y tu allan i'r llys, hyd at £143,000. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau bod hyd at £500,000 wedi'i ddyrannu yn 2021-22 er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer y cymorth rhianta a fydd ar gael ochr yn ochr â datrysiad y tu allan i'r llys, yn dilyn y newid yn y gyfraith. Er bod £500,000 wedi'i ddarparu yn y gyllideb ar gyfer y gweithgaredd hwn, ar sail costau tebygol paratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun, mae'n bosibl y bydd y gwariant gwirioneddol yn llai na £500,000, gan ddibynnu ar yr amserlenni ar gyfer recriwtio ymarferwyr rhianta sgiliau ychwanegol a graddau'r hyfforddiant a gynhelir.

Ni chaiff costau darparu cymorth rhianta eu hadlewyrchu yn y costau gweithredu a amlinellir uchod. Fodd bynnag, mae cymorth rhianta a gaiff ei ddarparu drwy awdurdodau lleol a'u partneriaid yn elfen allweddol o'r broses o weithredu Deddf Plant Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid ar gyfer cymorth rhianta drwy ei rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg (a gaiff eu trafod yn ddiweddarach yn y papur hwn). Cafodd argaeledd rhaglenni a chymorth rhianta ei adolygu gan grŵp gorchwyl a gorffen ar weithredu (Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta), ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i godi proffil y gweithlu rhianta ac i ystyried rhoi safonau cenedlaethol ar waith ar gyfer y gweithlu rhianta.

Mae'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth rhianta gan ddefnyddio gwefan benodedig, hysbysebion digidol a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn cefnogi'r broses o roi Deddf Plant Cymru ar waith, cafodd y wefan ei hadolygu a'i diweddarau er mwyn helpu rhieni â phlant rhwng 0 a 18 oed (yn flaenorol, roedd yn berthnasol i'r grŵp oedran 0-7 oed). Yn ogystal, ychwanegwyd neu diweddarwyd adnoddau i helpu i reoli ymddygiad plant. Caiff ymgyrchoedd digidol, teledu a radio eu cynnal cyn cychwyn

Deddf Plant Cymru, er mwyn cyfeirio at wybodaeth a chyngor ar ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant, ochr yn ochr â'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'n hymdrechion i stopio cosbi corfforol. Dyrannwyd £200,000 i *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* yn 2021-22, ac rydym yn disgwyl i'r swm cyfan gael ei wario.

Bydd Deddf Plant Cymru yn dod i rym o 21 Mawrth 2022.

Rhagwelodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wariant o £300,000 ar yr ymgyrch i stopio cosbi corfforol yn 2022-23. Rydym yn cydnabod bod gwaith parhaus i godi ymwybyddiaeth yn bwysig, ochr yn ochr â'r newid yn y gyfraith, er mwyn helpu i gyflawni'r amcan polisi, sef lleihau achosion o gosbi plant yn gorfforol, a chynyddu'r gefnogaeth i'r egwyddor bod pob math o gosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol. Felly mae'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer yr ymgyrch stopio cosbi corfforol yn 2022-23 wedi cynyddu i £400,000. Yn ogystal, dyrannwyd £400,000 i'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* er mwyn gwella gallu'r ymgyrch i gyfleu negeseuon am rianta cadarnhaol a dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi corfforol.

Rhagwelodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i roi cynllun gwyrho ar waith, a fyddai'n costio rhwng £162,000 a £473,000 y flwyddyn. Fel y trafodwyd wrth graffu ar y Bil yn y Senedd, o 21 Mawrth 2022 caiff cosbi plant yn gorfforol ei wahardd yng Nghymru o 21 Mawrth 2022, ac mae'n bosibl y caiff nifer bach o unigolion eu cyhuddo neu eu herlyn o dan amgylchiadau lle na fyddai hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Gall yr heddlu benderfynu mai defnyddio datrysiad y tu allan i'r llys, lle ceir ffocws ar adsefydlu ac y caiff amodau eu hatodi, yw'r dull gweithredu priodol. Byddai rhoi cynllun gwyrho ar waith yn galluogi'r heddlu, mewn achosion lle yr ystyrir bod hynny'n briodol, i gynnig datrysiad y tu allan i'r llys ac i atgyfeirio unigolion at y cynllun.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i lunio cynigion ar gyfer cynllun a fyddai'n galluogi'r heddlu i atgyfeirio unigolion at awdurdodau lleol er mwyn cynnig cymorth rhianta wedi'i deilwra iddynt, fel un o amodau datrysiad y tu allan i'r llys. Dyrannwyd hyd at £810,000 i gyllido'r cymorth rhianta a gaiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol fel rhan o'r cynllun gwyrho *Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys*.

Byddwn hefyd yn parhau i gyllido gwaith ymchwil er mwyn olrhain lefelau ymwybyddiaeth ac agweddau tuag at gosbi corfforol yn ystod 2022-23.

**Dyraniadau ar draws y Portffolio Gweinidogol fel y rhestrir isod ac fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

### **lechyd Plant**

#### **Cyflenwi a Pherfformiad y GIG**

Mae'r trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau plant a pherfformiad y gwasanaethau hynny yn dueddol o gael eu cynnal drwy arweinyddwr polisi penodol lle maent yn berthnasol i gamau

gweithredu penodol. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol: sgrinio llygaid a'r clyw, imiwneiddio plant, iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS). Mae comisiynwyr Gwasanaeth Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn comisiynu ac yn monitro gwasanaethau arbenigol penodol i blant. Ni chaiff gofal dewisol arferol i blant ei gofnodi na'i adrodd yn benodol yn genedlaethol. Fel arfer, caiff ei gynnwys o fewn y data cenedlaethol cyffredinol. Yn dilyn ymchwiliad manwl i wasanaethau plant yn ystod COVID-19, gwnaethom gytuno bod angen newid y llyf data cenedlaethol i mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn gallu dadansoddi rhestrau aros yn ôl grwpiau oedran 0-16, 16-18 ac 18 a throsodd. Bydd hyn yn golygu y gall data cenedlaethol fonitro adferiad gwasanaethau gofal cynlluniedig i blant fel is-set. Bydd data o fis Rhagfyr 2021 yn golygu y gellir cynnal y dadansoddiad ychwanegol hwn ar lefel genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir â phob Bwrdd Iechyd am ei gyfrifoldeb mewnol am fonitro perfformiad gwasanaethau plant lleol ac adrodd arnynt ym mhob un o'i ardaloedd cyflenwi.

Caiff yr is-set data newydd a ddefnyddir i fonitro perfformiad byrddau iechyd er mwyn olrhain y gwaith o ddileu ôl-groniadau ym maes gofal dewisol i blant ei chefnogi gan y data arbenigol a gyflwynir drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

## **Gwaith ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc**

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – brand allanol y rhaglenni a'r mentrau cyfunol a gaiff eu cyllido a'u rheoli gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – gylch gwaith i ysgogi rhagoriaeth ym maes ymchwil, meithrin galluogrwydd a gallu a chefnogi trefniadau i gyflawni ymchwil drosiannol a chymhwysol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- atal, canfod a gwneud diagnosis o afiechyd a salwch;
- datblygu a gwerthuso ymyriadau;
- darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Helpu ymchwilwyr yng Nghymru i ddatblygu gwaith ymchwil newydd

Fel rhan o seilwaith datblygu ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu wedi buddsoddi mwy o arian mewn gwaith ymchwil sy'n ymwneud â phlant drwy ganolfannau ymchwil fel Partneriaeth CASCADE, DECIPHer ac NCPHWR.

- Mae Partneriaeth y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (Partneriaeth-CASCADE) yn cynnal gwaith ymchwil mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a materion sy'n effeithio ar blant mewn gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'n cael cyllid blynyddol o £0.515m gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu.
- Mae'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) yn cynnal gwaith ymchwil i ymddygiad iach ac atal salwch ymhlith plant a phobl ifanc, ac mae'n gyfrifol am gynnal y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, sef rhwydwaith Cymru gyfan. Ar hyn o bryd, mae DECIPHer yn cael cyllid blynyddol o £0.526m gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu.

- Mae gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR) ffrwd waith benodol ar gyfer ymchwilio i'r blynyddoedd cynnar ac mae'n cefnogi rhwydwaith ysgolion cynradd HAPPEN. Ar hyn o bryd, mae'n cael cyllid blynyddol o £0.651m gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, er bod hwnnw'n cael ei rannu rhwng gwaith ar blant a'r blynyddoedd cynnar a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.

Mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu hefyd yn gweinyddu amrywiaeth o gynlluniau cyllido agored a chystadleuol o dan frand Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (gan gynnwys cymwysterau PhD, Cymrodoriaethau, cyllid yn seiliedig ar brosiectau ac amser ymchwil). Mae'r cynlluniau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys elfennau iechyd a gofal cymdeithasol, yn gydnaws â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, a chaiff ceisiadau eu hasesu i ddechrau ar sail polisi, arferion ac anghenion cyhoeddus.

Gall ymchwilwyr iechyd a gofal plant wneud cais i bob cynllun cyllido. Dengys ein hasesiad diweddaraf fod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ers 2014/15, wedi buddsoddi £3.7 miliwn ar draws 18 o brosiectau sy'n ymwneud yn benodol â gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc (er ei bod yn debygol iawn bod y ffigurau hyn wedi cynyddu).

Er mwyn ysgogi gwaith ymchwil pediatrig yng Nghymru, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cyllido swydd Dr. Phillip Connor fel Arweinydd Arbenigedd Ymchwil Cymru Gyfan ar gyfer Plant. Rôl Dr Connor yw hyrwyddo gwaith ymchwil pediatrig ym mhob rhan o'r GIG, gan ysgogi diddordeb mewn cynnal gwaith ymchwil a denu astudiaethau ymchwil pediatrig i Gymru.

#### Cymorth i gynnal gwaith ymchwil ledled Cymru

Bob blwyddyn, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid (cyfanswm o ryw £15m) i sefydliadau'r GIG i'w galluogi i gynnal seilwaith ymchwil (nyrsys ymchwil, fferyllwyr, radiolegwyr, cyfleusterau ymchwil glinigol ac ati) er mwyn cynnal treialon clinigol ac astudiaethau ymchwil eraill o ansawdd uchel. Mae model cyllido newydd ar waith er mwyn annog gwell cydweithio rhwng sefydliadau'r GIG, sicrhau'r gwerth gorau posibl o adnoddau ac ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal astudiaethau 'nifer bach' mewn meysydd fel pediatreg a therapïau newydd. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal gwaith ymchwil ar blant o fewn treialon clinigol mewn lleoliadau trin cymhleth yn y GIG ac o fewn amgylcheddau gofal cymdeithasol sensitif ac mae wedi gweithio gyda'r gymuned ymchwil i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal â nodi bod hawliau plant yn rhan flaenllaw o'n prosesau datblygu polisi. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru y ddogfen 'Gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - darganfod eich rôl' sy'n amlinellu cynlluniau ar gyfer datblygu trefniadau pellach ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'r rhaglen weithredu yn cynnwys ffocws ar blant a phobl ifanc.

#### **Iechyd y cyhoedd: Yr ymateb i COVID-19, sgrinio a brechu**

Caiff costau'r rhaglen profion llif unffordd rheolaidd ar gyfer COVID-19 i ysgolion a lleoliadau gofal plant eu cynnwys fel rhan o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rhaglen profi'r DU a gaiff ei

gweithredu gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ar draws y pedair gwlad sy'n rhan o'r DU. Dim ond diolch i waith caled a hyblygrwydd y gweithlu addysg a'r gweithlu gofal plant yn y lleoliadau ac yn yr Awdurdodau Lleol y bu modd rhoi'r rhaglen hon ar waith.

Nodir costau darparu profion PCR symptomatig i blant a phobl ifanc drwy ein Safleoedd Profi Rhanbarthol a Lleol hefyd o dan raglen profi'r DU. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn nodi'r trefniadau a'r gwasanaethau a ddarperir o dan raglen profi'r DU.

Mae labordai GIG Cymru yn prosesu rhai o'r profion diagnostig sydd eu hangen ym maes gofal eilaidd ac yn ystod brigiadau a chaiff y costau hyn eu cynnwys o dan y gyllideb Profi Olrhain Diogelu ac o fewn y cyllid a ddarperir i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Caiff costau rhaglen weithredu brechlyn COVID-19 eu cynnwys o'r cyllid ymateb i COVID-19. Pennwyd cyllideb o £100m ar gyfer 2021-22. Er mwyn rhoi cam nesaf y rhaglen ar waith yn llwyddiannus, bydd angen dull gweithredu hyblyg o hyd er mwyn ymateb i gymhlethdod cynyddol y carfanau brechu. Bydd angen i'r GIG ymateb yn brydlon ac yn effeithiol, fel y mae wedi gwneud drwy gydol y pandemig, gan brofi ei fod yn ddigon ystwyth a hyblyg. Felly hefyd y gweithlu hynod fedrus a phrofiadol sydd ei angen i barhau i gyflwyno ein rhaglen frechu'n llwyddiannus. Dim ond drwy barhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol y bydd hyn yn bosibl – sef llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau, y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr. Mae'r ymdrech amlasiantaeth hon yn parhau ac mae ein gallu i ddarparu yn cynyddu'n barhaus er mwyn i ni allu diogelu mwy o'n poblogaeth bob dydd.

Er bod dyfodol pandemig y coronafeirws yn ansicr iawn o hyd, rydym wedi neilltuo cyllid yn y gyllideb hon ar gyfer ymyriadau parhaus sy'n ymwneud â COVID-19, yn benodol olrhain cysylltiadau, profi, brechu torfol a darparu PPE i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol. Caiff y cyllid hwn ei adolygu'n barhaus wrth i ni drafod heriau cyfredol y pandemig. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd cyllid canlyniadol pellach yn dod i gyfeiriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid profi ychwanegol ar gyfer 2022/23.

## **Rhaglenni imiwneiddio**

Mae'r rhaglen fflw genedlaethol yn parhau i gael ei darparu drwy fyrddau iechyd gan ddefnyddio cyllid craidd. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys set fawr o garfanau o unigolion a gafodd eu blaenoriaethu gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI). Ar gyfer 2021-22, cafodd carfanau ychwanegol eu cynnwys er mwyn helpu i ymateb i'r pandemig. Cafodd ysgolion uwchradd eu cynnwys ar gyfer 2021-22 ac ar hyn o bryd, mae dros 57% wedi derbyn y cynnig. Cost cynnwys y grŵp ychwanegol yn ystod 2021-22 oedd £4m. Y bwriad yw parhau i frechu'r grŵp oedran ysgol estynedig yn y dyfodol fel ffordd o leihau lledaeniad y fflw.

Mae'r cyllid ar gyfer brechiadau eraill a roddir i blant (fel MMR a HPV) wedi'i gynnwys yng nghyllidebau craidd y byrddau iechyd. Parhaodd rhaglenni imiwneiddio plant fel gwasanaethau hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws, a rhoddwyd sicrwydd priodol i rieni a mesurau rheoli heintiau priodol ar waith gan bractisau. Defnyddiwyd adroddiadau imiwneiddio estynedig misol a ddatblygwyd gan Raglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru i fonitro effaith COVID-19 ar nifer y plant a oedd yn cael imiwneiddiadau rheolaidd ledled Cymru.

Mae data yn awgrymu bod nifer y plant ifanc a'r babanod sydd wedi cael eu brechiadau wedi parhau'n sefydlog drwy gydol y pandemig. Yn ystod y pandemig, gwelwyd yr effaith fwyaf ar gyfraddau brechu ar raglenni a gynigir mewn ysgolion uwchradd (fel HPV a MenACWY); rhoddir blaenoriaeth i raglenni dal i fyny yn 2022-23.

## **Iechyd y Cyhoedd: Gwasanaethau gwella iechyd a llesiant**

### Pwysau Iach : Cymru Iach

Caiff cyllideb o £6.63m ei dyrannu yn 2022-23 i gefnogi strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau achosion o ordewdra ledled Cymru. Mae'n nodi cynllun 10 mlynedd i flaenoriaethu ymyriadau cynnar a newid mewn ymddygiad ar bob lefel er mwyn newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'r strategaeth yn ymrwymiad allweddol tuag at ddull gweithredu trawslywodraethol er mwyn lleihau gordewdra yng Nghymru ym mhob rhan o'r boblogaeth. Datblygwyd y strategaeth gan ddefnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn wedi dangos bod angen dull gweithredu newydd sy'n cyfuno newidiadau i ymddygiad unigolion a newidiadau amgylcheddol ac i systemau. Bydd yn defnyddio cyfuniad o gyllid, polisïau a deddfwriaeth i ddatblygu dulliau gweithredu drwy ein hamgylchedd, ein lleoliadau a'n harweinwyr er mwyn rhoi ffocws cryf ar atal. Bydd hefyd yn defnyddio dulliau wedi'u targedu mewn ardaloedd o amddifadedd a bydd yn helpu'r rheini sydd eisoes dros bwysau neu'n ordew drwy amrywiaeth o wasanaethau atal, ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau arbenigol. Caiff Cynllun Cyflenwi 2022-2024 ei gyhoeddi ddechrau 2022 a fydd yn nodi dull gweithredu trawslywodraethol.

Mae cyllid o fewn y rhaglen yn cefnogi trefniadau ymgysylltu ehangach â phlant a theuluoedd, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Ariannwyd Peilot Plant a Theuluoedd drwy'r cynllun cyflenwi ac mae ar waith mewn tair ardal, sef Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Bydd y rhaglenni peilot hyn yn mabwysiadu dull gweithredu systemau cyfan, gan dynnu arferion a thystiolaeth orau ynghyd. Un o elfennau craidd y dull gweithredu hwn yw'r broses o roi ymyriad atal eilaidd ar waith yn y cartref i deuluoedd â phlant yn y sector blynyddoedd cynnar, sef rhwng 3 a 7 oed, yn unol â'r cyfnod sylfaen.
- Bydd £2.9 miliwn y flwyddyn ar gael i fyrddau iechyd tan 2023-2024 er mwyn iddynt ddatblygu eu haddasiadau lleol o Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan a fydd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau rheoli pwysau yng Nghymru ac i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Am y tro cyntaf, caiff gwasanaethau lefel 3 arbenigol eu darparu i blant a theuluoedd ledled Cymru a chaiff gwasanaethau a dulliau gweithredu eu datblygu yn seiliedig ar ymyriadau cynnar ar lefel 2, gan gynnwys dulliau gweithredu penodol yn ystod cyfnod mamolaeth. Bydd y llwybr diwygiedig yn darparu cymorth tosturiol wrth helpu pobl ar eu taith i reoli eu pwysau a chaiff ei gynnal ochr yn ochr â'n strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i annog pobl i wneud dewisiadau iachach ac i fyw bywydau mwy gweithgar.
- Mae Gweinidogion wedi cytuno i ddatblygu Cynnig Gweithredol Dyddiol newydd ar gyfer y Gymraeg i ysgolion. Bydd y cynnig yn mabwysiadu dull gweithredu oed-benodol ysgol gyfan, yn seiliedig ar newid mewn ymddygiad ac amrywiaeth o ddulliau y gellir eu

haddasu, i ategu'r cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn ymateb i dystiolaeth, yn darparu hyblygrwydd ac yn cynnwys trefniadau gwerthuso er mwyn asesu canlyniadau iechyd. Bydd hyn hefyd yn gysylltiedig â chynigion i ehangu'r diwrnod ysgol.

- Rydym wedi sefydlu rolau Llysgenhadon Pwysau Iach ledled Cymru. Maent yn gweithio gyda ni i hyrwyddo'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach ac i ysbrydoli gwaith i gyflawni ei nodau a'i amcanion gyda phartneriaid ledled Cymru, i wrando, i ymgysylltu ac i hybu ethos a negeseuon cadarnhaol y strategaeth o ran ffordd o fyw. Mae hyn yn cynnwys Cennad Ieuencid a Chennad Teulu sy'n ehangu ein gwaith ymgysylltu ym mhob rhan o'r strategaeth.

### Cynllun Cychwyn Iach

Mae cyllid y Cynllun Cychwyn Iach yn darparu rhwyd ddiogelwch faethol i'n teuluoedd ifanc mwyaf agored i niwed. Mae'r cyllid, sef £6.9m yn 2022-23, yn cynnwys Talebau Cychwyn Iach i fenywod beichiog, mamau newydd a phlant o dan bedair oed o aelwydydd incwm isel brynu ffrwythau a llysiau, llaeth a fformiwla babanod yn ogystal ag ychwanegion amlfitamin am ddim. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys cefnogi'r Cynllun Llaeth Meithrin sy'n darparu diod o laeth/fformiwla babanod am ddim i blant o dan bump oed sy'n mynychu dwy awr o ofal plant neu fwy.

### Y Gronfa Iach ac Egniol

Mae'r Gronfa Iach ac Egniol yn rhaglen pedair blynedd â chyllid o £1.00m yn 2022-23. Mae'r Gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n anelu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol drwy alluogi ffyrdd o fyw iach ac egniol. Mae sawl un o'r prosiectau yn anelu'n benodol at leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae'r coronafeirws wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd a oedd yn bodoli eisoes yng Nghymru, a'r grwpiau hynny yr effeithiwyd arnynt yn benodol yw'r un grwpiau demograffig allweddol a dargedir gan y Gronfa Iach ac Egniol. Er enghraifft, awgrymodd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol:

- bod 26% o blant yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol
- bod 35% o blant yn gwneud llai o weithgarwch corfforol
- nad oedd 9% o blant yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol o gwbl
- Roedd y gostyngiadau mwyaf i'w gweld, yn ôl pob tebyg, ymhlith plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, lle nad oedd 14% ohonynt yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol.

Mae rhaglen y Gronfa Iach ac Egniol wedi cyllido prosiectau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau rhyng-genhedlaeth er mwyn gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol, mynediad i weithgareddau corfforol mewn mannau gwyrdd, a rhaglen o weithgareddau chwarae i blant sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd chwarae fel rhan greiddiol o iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant.

### Cymru Ddi-fwg

Mae smygu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc drwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Mae helpu plant a phobl ifanc i gael plentyndod di-fwg yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru ddi-fwg. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Strategaeth Rheoli Tybaco newydd i Gymru a'r Cynllun Cyflenwi cyntaf sy'n nodi'r camau gweithredu penodol wedi'u targedu a fydd yn ein helpu i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â thybaco yng Nghymru. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ein huchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030 sy'n golygu bod angen cyflawni cyfradd cyffredinrwydd smygu o 5% neu lai ymhlith oedolion yn ystod yr wyth mlynedd nesaf. Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu i ategu'r ymgynghoriad a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y caiff plant a phobl ifanc yng Nghymru gyfle i gyfrannu at ein hymgynghoriad.

Mae ein profiad wrth ymdrin â phandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at gostau goddef anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau o ran yr effaith anghymesur a gafodd y pandemig ar unigolion llai cyfoethog yng Nghymru. Mae'r profiad hwn wedi dangos pwysigrwydd mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi'r anghydraddoldebau hyn ar fyrder ac wedi cynyddu ein dyhead i wneud hynny. Fel y cyfryw, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Rydym wedi cadw'r dyraniad o £7.20m ar gyfer cyllid Atal a'r Blynyddoedd Cynnar, a byddwn yn newid ffocws y cyllid hwnnw er mwyn sicrhau y caiff ei dargedu tuag at y ddau brif ffactor o ran marwolaethau y gellid eu hosgoi yng Nghymru: gordewdra a smygu. Gan ddefnyddio'r cyllid hwn, byddwn yn cefnogi prosiectau ar draws Byrddau Iechyd Lleol sy'n helpu i gyflwyno cymorth rhoi'r gorau i smygu i gleifion mewnol ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol ac yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n smygu yn ystod beichiogrwydd a'u helpu i roi'r gorau iddi.

## **Gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol**

Mae rhoi blaenoriaeth i iechyd meddwl a llesiant yn 2022-23 yn flaenoriaeth o hyd ac rydym yn darparu £50m ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn. Er mai cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen a chyfrannu at atal salwch meddwl mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag atal iechyd y cyhoedd sylfaenol, camddefnyddio sylweddau a chymorth cysylltiedig â chyflogaeth fydd prif nod y ddarpariaeth hon, mae angen amrywiaeth ehangach o lawer o gyllidebau trawslywodraeth er mwyn cefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant y genedl. Mae effaith COVID-19 wedi cynyddu'r heriau a wynebier gan wasanaethau iechyd meddwl o ran cyrraedd targedau ar gyfer amseroedd aros mewn ffordd gynaliadwy, a cheir pwysau penodol ar wasanaethau CAMHS, gwasanaethau anhwylderau bwyta a therapïau seicolegol pob oed. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd cynnydd mewn atgyfeiriadau a / neu gymhlethdod achosion yn parhau am beth amser wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Bydd angen mwy o fuddsoddiad a chyllid ychwanegol yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl ac er mwyn helpu i roi Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru ar waith.

Byddwn hefyd yn parhau i helpu i ddatblygu gwasanaethau cymunedol ar gyfer iechyd meddwl amenedigol er mwyn gallu cydymffurfio â safonau cymunedol amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Byddwn hefyd yn parhau i weithio tuag at ein hymrwymiad i sicrhau bod darpariaeth uned mamau a babanod ar gael i famau sy'n byw yn y gogledd. Defnyddir cyllid hefyd i ddarparu cymorth ychwanegol er mwyn gwella dulliau atal a hyrwyddo dull 'dim drws anghywir' mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl.



## **Atal achosion o hunanladdiad**

O fewn cyd-destun cyfanswm y gwariant ar iechyd meddwl, rydym yn buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl bob blwyddyn, ac o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl, byddwn yn parhau i roi cymorth penodol er mwyn atal achosion o hunanladdiad a hunan-niwed. Byddwn yn parhau i gyllido ein harweinydd cenedlaethol a'n cydgysylltwyr rhanbarthol ynghyd â phrosiectau eraill a gaiff eu cefnogi ar sail genedlaethol (tua £0.5m). Bydd y dyraniad newydd a neilltuwyd ar gyfer cyllid iechyd meddwl yn helpu i barhau i ddatblygu gwasanaethau argyfwng gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn cefnogi nifer o feysydd gwariant newydd a fydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niwed, er enghraifft cynyddu'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau gwirfoddol a gwasanaethau argyfwng a'r rhai y tu allan i oriau. Bydd hefyd yn cynnwys gweithredu argymhellion adolygiad Uned Gyflenwi'r GIG o wasanaethau argyfwng a gwasanaethau cyswllt seiciatrig a datblygu dewisiadau amgen yn hytrach na derbyn plant a phobl ifanc i'r ysbyty, er enghraifft drwy ehangu darpariaeth sy'n cynnig noddfa.

## **Awtistiaeth a chyflyrau niwroddatblygiadol**

Mae cyflwyno Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn un o ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae adolygiad o'r galw am wasanaethau niwroddatblygiadol a chapasiti pob gwasanaeth yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella, gan gynnwys datblygu'r gweithlu. Darparwyd £5.73m i roi'r cod statudol ar waith, drwy gefnogi'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ac adolygiad galw a chapasiti. Bydd buddsoddiad pellach o £5.185m yn cefnogi gwaith i ddatblygu polisiau ac i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol yn y dyfodol, gan gynnwys camau gweithredu i ymdrin â phrosesau asesu ac amseroedd aros diagnostig a bydd yn anelu at ehangu gwasanaethau er mwyn cynnwys cyflyrau fel ADHD.

## **Camddefnyddio sylweddau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc**

Mae cymorth i blant a theuluoedd yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Yn arbennig, rydym yn gwybod drwy'r gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bod plant a gaiff eu magu mewn cartrefi lle ceir problemau o ran camddefnyddio sylweddau, o bosibl, yn fwy tebygol o wynebu canlyniadau andwyol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cynnig dulliau ymyrryd yn gynnar ac atal er mwyn ceisio atal unrhyw niwed tymor hwy cyn iddo ddigwydd.

Mae mwy o risg y bydd plant y rheini yr effeithiwyd arnynt gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn amlygu eu plant eu hunain i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod hefyd, gan greu cylch niwed, y mae angen i gamau ymyrryd yn gynnar ganolbwyntio ar ei chwalu. Rydym wedi pennu camau gweithredu clir er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gydgysylltiedig ac yn effeithiol i deuluoedd, yn arbennig y rheini "ar gyrion gofal". Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi data

sy'n dangos cynnydd sylweddol (72%) mewn atgyfeiriadau o'i llinell gymorth mewn perthynas â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae data newydd gan yr elusen i blant yn datgelu ei bod wedi atgyfeirio 572 o achosion a oedd yn gysylltiedig â'r mater hwn yn ystod y 10 mis diwethaf i asiantaethau yng Nghymru – cyfartaledd misol o 58 o atgyfeiriadau, sydd 72% yn uwch na'r cyfnod cyn y cyfyngiadau symud y llynedd (6 Ionawr – 22 Mawrth 2020).

Yn ystod cam cynnar yn y pandemig, gwnaethom ofyn am sicrwydd gan bob Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau bod gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd ar gael o hyd, ac mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r llywodraeth i liniaru effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

Drwy Gronfa Weithredu'r Byrddau Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.75m o arian wedi'i neilltuo ar gyfer plant a phobl ifanc. Gan gydnabod y cynnydd o ran galw am gymorth, neilltuwyd £1m ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft hon er mwyn cynyddu'r dyraniad hwn i £3.75m yn 2022-23. Yn ogystal, bwriedir cynyddu'r swm hwn i £5.25m a £6.25m yn 2023-24 a 2024-25, yn y drefn honno.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £1.98m y flwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ac mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn darparu cyllid cyfatebol. Mae'r rhaglen yn cynnig addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach yn ystod pob un o gyfnodau allweddol y cwricwlwm fel rhan o amrywiaeth o wersi eraill.

## **Gordewdra ymhlith plant**

Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb. Byddwn yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan ddymchwel y rhwystrau y mae salwch yn eu creu o ran cyflogaeth a chyfleoedd, a mynd i'r afael â'r cylch iechyd gwael ac anweithgarwch rhwng cenedlaethau.

Defnyddir cyllid drwy'r rhaglenni peilot i blant a theuluoedd, Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan a'r Dull Gweithredu Systemau Cyfan. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar ddarparu mesurau ataliol er mwyn cynyddu gweithgareddau corfforol a gwella maeth ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Un fenter yw'r ymgyrch Bwyteuach y Llysiau i'w Llethu a fydd i'w gweld yn ystod 2022 yng Nghymru. Mae'r ymgyrch hysbysebu hon yn anelu at annog plant i ystyried llysiau fel rhywbeth llawn hwyl i'w hannog i fwyta mwy ohonynt. Yn 2022-23, y nod yw cynyddu'r fenter er mwyn targedu pob un o'r 1,225 o ysgolion cynradd a chyrraedd amcangyfrif o 276,954 o ddisgyblion. Caiff gwerthusiad pellach ei ystyried yn 2022-23 er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith allgymorth pellach ymhlith plant a phobl ifanc.

(Gweler yr adran uchod ar Bwysau Iach: Cymru Iach, tudalennau 13 ac 14)

## **Gofal Cymdeithasol Plant**

### **Gwasanaethau diogelu**

Prif nod cyllid diogelu yw helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith a hyrwyddo agenda ataliol er mwyn gwella canlyniadau llesiant i blant ac oedolion sy'n wynebu risg, gan adlewyrchu'r angen i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn seiliedig ar gydweithio i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu helpu i aros gyda'u teuluoedd lle y mae'n ddiogel iddynt wneud hynny ac amddiffyn plant rhag achosion o gam-drin ac esgeuluso. Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn, mae cyllid yn cefnogi gwaith i ddatblygu a gweithredu polisiau diogelu mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, lleihau arferion cyfyngol, a gwaith parhaus er mwyn helpu i adfer ar ôl COVID-19, drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd.

Mae cyllid diogelu hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sy'n rhoi cymorth i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a chynghor i Weinidogion ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae trefniadau gweithredu'r byrddau rhanbarthol a'r bwrdd cenedlaethol yn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi arferion cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu plant ar draws asiantaethau a ledled Cymru.

### **Gwasanaethau eiriolaeth**

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn ddull wedi'i safoni ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth statudol a ddarperir gan y chwe Menter Gwasanaethau Cymdeithasol Gydweithredol Ranbarthol, gan atgyfnerthu a sicrhau darpariaeth a phrofiad cyson i blant ac ymarferwyr. Bu ar waith ers mis Mehefin 2017. Caiff y broses o weithredu'r dull cenedlaethol ei monitro gan Ffora Rhanbarthol sy'n dilyn ôl troed y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, wedi'u goruchwyllo gan Fforwm Cenedlaethol wedi'i gadeirio gan Lywodraeth Cymru a Phennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol. Bydd yr elfen gyllido gan Lywodraeth Cymru yn parhau (hyd at £550k bob blwyddyn).

MEIC yw'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth sy'n rhoi un pwynt cyswllt i blant a phobl ifanc drwy rif rhadffon, gwasanaeth negeseuon uniongyrchol a gwasanaeth negeseuon testun. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r gweithgarwch hwn yn uniongyrchol ond mae ganddi gontract â Pro-Mo Cymru. Ar hyn o bryd, darparwyd cyllid i MEIC hyd at fis Mawrth 2022 ac mae proses dendro yn mynd rhagddi ar gyfer adnewyddu'r gwasanaeth.

### **Gwasanaethau mabwysiadu**

Caiff buddsoddiad ei gyfeirio tuag at awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn parhau i atgyfnerthu'r gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir yng Nghymru. Mae darparu cymorth mabwysiadu effeithiol wedi'i deilwra i deuluoedd sy'n mabwysiadu yn hollbwysig wrth helpu i atal achosion o amharu ar drefniadau mabwysiadu ac i atal trefniadau mabwysiadu rhag chwalu, gan felly lleihau'r posibilrwydd y bydd plant yn ailymuno â'r system gofal, cymaint ag y gellir. Caiff buddsoddiad hefyd ei gyfeirio at wella prosesau paru a lleoli er mwyn sicrhau y caiff plant na allant ddychwelyd i fyw gyda'u teulu genedigol eu lleoli cyn gynted â phosibl, gyda 'theuluoedd parhaol' addas sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

## **Gwasanaethau maethu**

Bydd cyllid yn parhau i gael ei gyfeirio er mwyn helpu'r sector maethu i weithredu rhaglen waith a fydd yn grymuso'r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o'r fframwaith llesiant cenedlaethol. Caiff buddsoddiad hefyd ei gyfeirio er mwyn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi'r cynllun maethu cenedlaethol yng Nghymru – Maethu Cymru. Defnyddir cyllid i roi nifer o ymgyrchoedd recriwtio ar waith a gaiff eu targedu at ddiwallu anghenion gwasanaethau, yn ogystal â pharhau i weithredu'r rhaglen waith a gynhaliwyd yn ystod 2021. Mae recriwtio gofawyr maeth yn allweddol i lwyddiant a datblygiad gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a bydd y brand yn helpu awdurdodau lleol wrth iddynt ymdrechu i ailgydbwysu'r gwasanaethau a ddarperir a gwella ansawdd lleoliadau o ddewis i blant sy'n derbyn gofal.

## **Cafcass Cymru**

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol a gaiff ei arwain gan alw sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae dyraniad cyllideb 2022-23 i Cafcass Cymru wedi cynyddu i £14.725m ac mae'n cynnwys costau staffio a rhedeg y sefydliad, ond hefyd gyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gael cyswllt â'u plant, pan geir cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Llys Teulu.

Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido darpariaeth y rhaglen Gweithio gyda'n Gilydd er mwyn Plant a orchmynnir gan y llys sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad yn well er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant.

## **Polisi a goruchwyllo'r ddarpariaeth o ran holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yn cael eu monitro bob pythefnos o hyd gan system Checkpoint y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r system hon yn darparu data am nifer y cysylltiadau, y nifer sy'n ymwneud â diogelu, plant sy'n derbyn gofal a chymorth, plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n wynebu caledi a phroblemau o ran llety.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddwyd y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer data gwasanaethau cymdeithasol ar 2 Rhagfyr. Mae'r data hyn yn darparu crynodeb blynyddol o'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.

## **Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc**

Bydd gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gallu cael budd o'r cyllid o £1.245m a ddarperir bob blwyddyn, yr ydym yn ei ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed yn 2022-23. Bydd hyn yn helpu i roi'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl i Gymru a'i Chynllun Cyflenwi cysylltiedig, a lansiwyd ar 25 Tachwedd, ar waith. Caiff y cyllid hwn ei ddarparu ochr yn ochr â'r cyllid yng nghynllun grant y Trydydd Sector Gwasanaethau

Cymdeithasol Cynaliadwy (2020-23), a chymorth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'i ffrydiau cyllido.

Gan ddefnyddio hyd at £0.2m o'r cyllid i ofalwyr, rydym yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gyflwyno'r prosiect cenedlaethol ar gyfer cardiau adnabod i ofalwyr ifanc. Nod y cerdyn adnabod gwirfoddol i bobl ifanc hyd at 18 oed yw darparu adnodd i helpu awdurdodau lleol a'r darparwyr a gomisiynir ganddynt yn y trydydd sector i gefnogi gofalwyr ifanc i arfer eu hawliau, gan gynnwys asesiad o anghenion gofalwr, lle y bo'n briodol.

### **Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn / Hawliau a hawliadau plant a phobl ifanc**

Mae'r cyllid yn 2022-23, sef £1.020m, yn cefnogi dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n cynnwys:

- y ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer eu swyddogaethau;
- hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o CCUHP.

Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i gyllido Plant yng Nghymru er mwyn cefnogi erthygl 12 o CCUHP sy'n rhoi'r hawl i blant gael leisio barn yn y materion sy'n effeithio arnynt, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried. Fel y nodir yng Nghynllun Hawliau Plant 2021, bydd pob Gweinidog yn cyfarfod â phobl ifanc bob blwyddyn – gan dynnu sylw at y gwerth rydym yn ei roi ar glywed llais plant a phobl ifanc.

Bydd y cyllid hwn hefyd yn galluogi Gweinidogion i roi'r Cynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant ar waith. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 42 o CCUHP sy'n nodi bod yn rhaid i lywodraethau weithio'n benodol i sicrhau bod plant ac oedolion yn gwybod am y Confensiwn.

### **Y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y cynnig Gofal Plant a'r gweithlu**

Ychwanegwyd £10m ychwanegol at ffigur llinell sylfaen cyllideb refeniw'r **Cynnig Gofal Plant i Gymru** yn 2022-23 er mwyn cyrraedd £85m, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y cyfraddau defnydd amcangyfrifedig, a chynnydd yn y gyfradd a nodir gan y Cynnig. Yn ogystal, bydd y cyllid ar gyfer ehangu Rhieni mewn Addysg a Hyfforddiant yn costio £9m erbyn 2024-25. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gwerth addysg a hyfforddiant wrth helpu rhieni i wella eu rhagolygon swyddi. Mae canfyddiadau cychwynol yr adroddiad gwerthuso diweddaraf yn nodi bod y Cynnig yn parhau i gael effaith gadarnhaol, gan helpu rhieni yn ariannol a'u galluogi i gydbwysu gofynion gwaith a bywyd teuluol.

Bydd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben yn 2023 ond bydd angen helpu'r **gweithlu** i wella ei sgiliau o hyd, yn arbennig o ystyried y bwriad i ehangu gofal plant wedi'i ariannu gan y llywodraeth i gynnwys pob plentyn 2 oed yn ystod Tymor y Cynulliad hwn. Bydd angen datblygu cynllun newydd i roi'r un lefel o gymorth i'r sector yn ystod y cyfnod twf hwn. Mae'r dyraniad

dangosol o £2m ar gyfer 2023-24 ac ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu'r angen parhaus hwn a'r ffaith bod cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben.

Mae consortiwm **CWLWM** yn cynnwys pum sefydliad sy'n cynrychioli gwahanol rannau o'r sector gofal plant a chwarae yng Nghymru. Ynghyd â **Chwarae Cymru**, maent yn bartneriaid allweddol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i'w haelodau ac i unigolion nad ydynt yn aelodau ar ffurf canllawiau, hyfforddiant a gwybodaeth am bob mater sy'n ymwneud â chwarae, y safonau cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig, cofrestru a rheoleiddio a chynaliadwyedd/rheoli lleoliadau. Cynyddwyd cyllidebau'r ddau er mwyn adlewyrchu eu pwysigrwydd parhaus a'r ffaith nad yw eu cyllid craidd wedi cynyddu ers pum mlynedd.

Yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno'r **bwndeli babanod** i fwy o deuluoedd yng Nghymru. Mae'r prosiect hwn yn anelu at roi rhodd gyffredinol ar ffurf bwndel o eitemau allweddol ar gyfer eu baban newyddanedig gan Lywodraeth Cymru i rieni sy'n disgwyl baban ac sy'n byw yng Nghymru. Pennwyd cyllideb newydd o £2m yn 2022-23, a £6m bob blwyddyn wedi hynny.

### **Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol i'r blynyddoedd cynnar sy'n ystyried anghenion unigryw pob plentyn a hynny o'r cyfnod bywyd cyn i'r plentyn gael ei eni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7 oed).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda BGCau ledled Cymru i ystyried sut y gellid darparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'n rhaglenni presennol fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o BGCau bellach yn cymryd rhan yn y rhaglen fel cynlluniau braenaru. Rydym yn buddsoddi £6m yn 2022-23 a 2023-24 er mwyn helpu BGCau yn rhanbarthau pob Bwrdd lechyd yng Nghymru, wrth iddynt brofi'r cydrannau craidd ar gyfer system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodolau a dulliau cyflawni amlasiantaeth, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

### **Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar**

Mae ein gweledigaeth **Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar** i Gymru yn golygu diddymu'r rhaniad artiffisial rhwng lleoliadau addysg a lleoliadau gofal, gan sicrhau bod pob lleoliad sy'n darparu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn cyfrannu at lesiant a datblygiad plentyn llawn cymaint â'i gilydd – un system unigol â'r plentyn fel canolbwynt iddi. Mae hyn yn golygu ystyried ansawdd y ddarpariaeth, sut y gallwn sicrhau y gall cynifer o blant â phosibl fanteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel a beth sydd angen i ni ei wneud i gefnogi ein

gweithlu. Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau ar daith deng mlynedd i fabwysiadu dull Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru i blant rhwng 0 a 5 oed.

## **Y Gronfa Datblygu Plant**

Sefydlwyd y Gronfa Datblygu Plant mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19 ar rai o'n plant ifancaf. Dyrennir £7m o gyllid yn 2022-23 i ALLau yng Nghymru er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig i ymdrin â phryderon o ran oedi datblygiadol, mewn meysydd fel lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras a datblygiad personol a chymdeithasol.

## **Help Cynnar**

Mae'r £7m o gyllid ar gyfer Help Cynnar wedi'i gynnwys yn y Grant Plant a Chymunedau. Fe'i darperir er mwyn galluogi awdurdodau lleol i barhau i leihau rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau help cynnar a chymorth ac i roi cymorth cyn gynted â phosibl, er mwyn helpu i ymdrin ag effeithiau andwyol y pandemig ar blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, gan gynnwys y rheini nad oeddent yn agored i niwed cyn hynny.

Rydym wedi darparu £40m o refeniw ychwanegol hyd at 2024-25 drwy'r Grant Plant a Chymunedau ar gyfer help cynnar a chymorth gan gynnwys ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, gan gydnabod pwysigrwydd helpu mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru.

## **Dechrau'n Deg i blant rhwng 0 a 3 oed**

Mae Dechrau'n Deg yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Datblygwyd rhaglen Dechrau'n Deg yn seiliedig ar dystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' wrth roi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd, gan gynnwys gofal plant rhan amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu, gwasanaeth ymwelwyr iechyd estynedig, cymorth rianta a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r cyfuniad hwn o gymorth integredig yn hollbwysig o ran sicrhau ei heffaith gadarnhaol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw sy'n cyrraedd oddeutu 36,000 o blant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn gwneud gwahaniaeth i'r plant hynny sy'n ymgymryd â'r rhaglen. Mae cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Rydym wedi darparu £40m o refeniw ychwanegol hyd at 2024-25 ar gyfer help cynnar a chymorth gan gynnwys Dechrau'n Deg, gan gydnabod pwysigrwydd helpu mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru ac er mwyn sicrhau ein bod yn helpu ein plant ifancaf i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

## **Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal i deuluoedd ledled Cymru y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, yn aml drwy gymorth neu gyngor mwy dwys ar rianta. Mae'r rhaglen yn helpu rhai o'n plant a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae'n gweithio i wella canlyniadau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu pecynnau cymorth amlasiantaeth cydlynus a all gael effaith drawsnewidiol ar fywydau teuluoedd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhaglen yn creu teuluoedd cryfach, mwy gwydn drwy roi cymorth effeithiol iddynt a all gael effaith drawsnewidiol ar fywydau teuluoedd. Mae'r cymorth yn helpu i sicrhau na fydd angen cymorth llawer mwy dwys a drud ar deuluoedd ac na fydd angen trosglwyddo'r plant i'r system gofal.

Mae cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Rydym wedi darparu £40m o refeniw ychwanegol hyd at 2024-25 ar gyfer help cynnar a chymorth gan gynnwys ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, gan gydnabod pwysigrwydd helpu mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru.

### **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

Mae Cymru yn arweinydd byd-eang o ran ei dull o atal a lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac mae gwaith ymchwil lechyd Cyhoeddus Cymru yn allweddol wrth lywio cyfeiriad polisi a dulliau gweithredu yn y maes hwn.

Mae'r gwaith i wella ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod eisoes yn cael effaith ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys: gwell cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion, llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd, llai o alwadau i'r gwasanaethau brys a gostyngiad yn nifer y tenantiaid a gaiff eu troi allan gan wasanaethau tai.

Mae Estyn wedi cydnabod effaith y gwaith hwn ac wedi ei gynnwys fel rhan o'i fframwaith arolygu. Mae atal a lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod hefyd yn allweddol o ran lleihau nifer y plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r gyllideb o £1m ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi'i rhannu rhwng y canlynol:

- Canolfan Cymorth ACE sy'n rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth arbenigol i amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i'w helpu i ddod yn fwy ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn fwy gwybodus am drawma;
- darparu rhaglenni ar lawr gwlad, gan gynnwys darpariaeth yn y gymuned er mwyn atal a lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Bydd cyllid o £1m y flwyddyn ar gyfer y cyfnod gwario hwn yn parhau i gefnogi gwaith sy'n atal ac yn lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys gwaith o dan arweiniad Canolfan Cymorth ACE. Mae prosiectau pwysig yn y maes hwn yn cynnwys datblygu a gweithredu cynllun newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a fframwaith gwybodaeth a sgiliau yn seiliedig ar drawma.



## Effaith Pandemig COVID-19 ar ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-23

▪ Gwybodaeth am effaith y pandemig ar y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2021-22 a 2022-23, gan gynnwys symudiadau i mewn ac allan o linellau'r gyllideb, y cyfraniad gros at ymateb cyllidebol Llywodraeth Cymru i COVID-19 – a derbyniadau cysylltiedig, yn ogystal ag effaith net hyn.

Mae'r gyllideb hon yn berthnasol i gyfnod tair blynedd o 22-23 i 24-25. Mae'r setliad hwn yn cynnwys dyrannu mwy ar y dechrau a cheir cynnydd llawer mwy yn 2022-23 a chynnydd cymharol is yn ystod yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn.

Nid oes unrhyw ddyraniadau penodol yn ymwneud â COVID-19 ond cafodd setliadau'r Prif Grŵpiau Gwariant eu hasesu drwy'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb gan gytuno i flaenoriaethu'r broses o roi'r Rhaglen Lywodraethu ar waith, cyllid ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol; ac i gynnal adolygiad cyfalaf cwbl gynhwysfawr er mwyn alinio cyllidebau cyfalaf â'r strategaeth newydd, Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Bydd y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o linell sylfaen refeniw o £8.597 biliwn i fyny i £10.05 biliwn erbyn 2024-25.

Mae setliad y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ar gyfer cynnydd o £824m yng nghyllidebau refeniw llinell sylfaen y GIG yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £250m yn 2023-24 a £200m yn 2024-25.

Yn ogystal â'r cynnydd emwn cyllid o £824m a ddyrannwyd i'r GIG ar gyfer 22-23, mae setliad y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys dyraniadau penodol ar gyfer:

- Iechyd meddwl £50m, gan gynyddu i £90m erbyn 24-25
- Gofal cymdeithasol £45m, gan gynyddu i £60m erbyn 24-25;
- **Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar £28m, gan gynyddu i £30m erbyn 24-25.**

Bydd y buddsoddiad craidd yn y GIG yn cynyddu £1.274bn yn ystod y gyllideb hon, sef cyfanswm buddsoddiad llinell sylfaen o £9.683bn yn 2024-25. Bydd y cynnydd sylweddol hwn yn darparu sylfaen i'r GIG yn ei ymateb parhaus i'r pandemig ac er mwyn helpu i ymdrin â'r gwaddol ar iechyd a llesiant.

Ymrwymwyd cyllid refeniw cylchol o £190m er mwyn helpu'r GIG i adfer, gan gynnwys £20m y flwyddyn i helpu i roi dull seiliedig ar werthoedd ar waith mewn perthynas ag adfer yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion.

Byddwn hefyd yn dyrannu £180m ar sail gylchol o 2022-23 ymlaen er mwyn helpu'r GIG i ymdopi ag effaith ariannol y pandemig ar ei sefyllfa ariannol sylfaenol, gan gynnwys cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Rydym yn disgwyl i'r GIG ddychwelyd i lefelau effeithlonrwydd cyn y pandemig wrth i effaith COVID-19 ar wasanaethau craidd leihau.

Er bod dyfodol pandemig y coronafeirws yn ansicr iawn o hyd, rydym wedi neilltuo cyllid yn y gyllideb hon ar gyfer ymyriadau parhaus sy'n ymwneud â COVID-19, yn benodol olrhain cysylltiadau, profi, brechu torfol a darparu PPE i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol. Caiff y cyllid hwn ei adolygu'n barhaus wrth i ni drafod heriau cyfredol y pandemig.

Yn 21-22, dyrannwyd £1.157 biliwn o gyllid ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ymateb i COVID-19 ac adfer. Roedd hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd o ymateb uniongyrchol y GIG a'r sector gofal cymdeithasol i adferiad y GIG a chymorth ychwanegol ar gyfer plant a theuluoedd.

- Gwybodaeth am argaeledd Cronfa Caledi Llywodraeth Leol COVID-19 i blant a phobl ifanc a'r defnydd ohoni

Defnyddiwyd y gronfa caledi llywodraeth leol i gefnogi'r amrywiaeth lawn o wasanaethau yn ystod pandemig COVID-19. Cefnogwyd maes gwasanaethau cymdeithasol plant yn 2020-21 drwy roi £16.3m ar gyfer costau ychwanegol a £2.3m ar gyfer colledion incwm. Yn 2021-22, mae'r maes hyd yn hyn wedi cael £8.4m ar gyfer costau ychwanegol a £0.6m ar gyfer colledion incwm.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Dyddiad: 13 Ionawr 2022**

**Sylwadau ar bob un o Gamau Gweithredu y cyllidebau Plant yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2022-23 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2021).**

<b>Cam gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu BEL 060 – Dyranriad y Blynyddoedd Cynnar Cymru Iachach</b>		
<b>Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021</b>	<b>Cyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>Newid</b>
<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
7.000	11.500	18.500

Mae BEL 60 yn y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu yn cynnwys y dyranriad cyllid gwreiddiol a wnaed i gefnogi Cymru Iachach. Fel rhan o'r ddarpariaeth gyllidebol hon, pennwyd llinell sylfaen o £7m i gefnogi'r Blynyddoedd Cynnar (fel ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf yn 2021).

Fel rhan o'r cynnydd o £28m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, dyrannwyd £11.5m i BEL 60, gan arwain at gyllideb ddrafft o £18.5m ar gyfer 22-23 ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.

<b>Cam gweithredu: Cefnogi Plant</b>		
<b>Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021</b>	<b>Cyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>Newid</b>
<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
94.761	108.611	13.850

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y cam gweithredu hwn yn cefnogi'r cynnig gofal plant (sy'n ddarostyngedig i drefniadau craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Trawsnewid Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid i nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau y gallan nhw a'u teulu gael gafael ar y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu bywyd fel teulu.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gam Gweithredu Cefnogi Plant**

**Dileu Dyranriadau ac Addasiadau COVID-19 yn ystod y flwyddyn yn 21-22**

- **£(4.550)m** – dyranriadau COVID-19 yn ystod y flwyddyn (ail gyllideb atodol)

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**

- **£16.500** – Dyraniadau newydd fel rhan o Gyllideb Ddrafft Gofal Plant

**Dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer 22-23**

- **£1.900m** – Addasiadau technegol, dyraniad o Brif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant a wnaed yn 21-22 nad ydynt yn y Gyllideb Ddrafft gychwynol ar gyfer 22-23.

<b>Cam gweithredu: CAF/CASS Cymru</b>		
<b>Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021 £m</b>	<b>Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m</b>	<b>Newid £m</b>
13.652	14.725	1.073

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol a gaiff ei arwain gan alw sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u buddiannau pennaf er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i'r plentyn dan sylw yn y System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teuluol ac ar wasanaethau i blant yng Nghymru, gan roi cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau y caiff anghenion teuluoedd a phlant yng Nghymru eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.

Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu, pan geir cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Llys Teulu, i gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido darpariaeth y rhaglen Gweithio gyda'n Gilydd er mwyn Plant sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad yn well er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant.

## **Esboniad o'r Newidiadau i Gam Gweithredu CAF/CASS Cymru**

### **Dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer 22-23**

- **£1.073m** – Addasiadau technegol o Gam Gweithredu i Gam Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HEALTH AND SOCIAL SERVICES

RESOURCE BUDGET			£'000							COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2021-22 Final Budget	Baseline Adjustments	2021-22 Revised Baseline	2022-23 MEG to MEG Transfers	2022-23 Transfers Within MEG	2022-23 Other Allocations from / Transfer to Reserves	2022-23 Draft Budget	
Delivery of Core NHS Services	0020	Core NHS Allocations	8,129,759	-440,000	7,689,759		-47,616	786,971	8,499,783	Agreed technical transfers Draft Budget: additional NHS funding
	0030	Other Direct NHS Allocations	269,744	0	269,744		-39,279	70,669	230,465	Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement Agreed technical transfers
	0035	Digital Health and Care Wales	0	0	0		55,732	1,119	56,851	Agreed technical transfers Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement DHCW
	0050	Health Education Improvement Wales	261,478	0	261,478		11,610	29,365	302,484	Agreed technical transfers Draft Budget: additional funding (HEIW commissioning numbers)
	0250	Public Health Wales	116,320	0	116,320		6,309	31	128,982	Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement HEIW Agreed technical transfers
								6,353		
<b>Total Delivery of Core NHS Services</b>			<b>8,777,301</b>	<b>-440,000</b>	<b>8,337,301</b>	<b>0</b>	<b>-13,244</b>	<b>894,508</b>	<b>9,218,565</b>	
Delivery of Targeted NHS Services	0186	Workforce (NHS)	34,528	0	34,528		-452		34,076	Agreed technical transfers
	0060	A Healthier Wales	133,826	-5,000	128,826		-52,780	11,500	87,546	Agreed technical transfers Draft Budget: Early Years services funding
	0682	Other NHS Budgets (Expenditure)	21,070	0	21,070		12,362		33,432	Agreed technical transfers
	0682	Other NHS Budgets (Income)	-53,000	0	-53,000				-53,000	
<b>Total Delivery of Targeted NHS Services</b>			<b>136,424</b>	<b>-5,000</b>	<b>131,424</b>	<b>0</b>	<b>-40,870</b>	<b>11,500</b>	<b>102,054</b>	
Support Education & Training of the NHS Workforce	0140	Education and Training	25,680	0	25,680		-1,201	1,311	25,790	Agreed technical transfers Draft Budget: additional Education & training commissioning funding
	0185	Workforce Development Central Budgets	2,225	0	2,225		-720		1,505	Agreed technical transfers
<b>Total Delivery of Targeted NHS Services</b>			<b>27,905</b>	<b>0</b>	<b>27,905</b>	<b>0</b>	<b>-1,921</b>	<b>1,311</b>	<b>27,295</b>	
Support Mental Health Policies and Legislation	0270	Mental Health	36,260	0	36,260		1,952	50,000	88,212	Agreed technical transfers Draft Budget: additional mental health funding
	<b>Total Support Mental Health Policies and Legislation</b>			<b>36,260</b>	<b>0</b>	<b>36,260</b>	<b>0</b>	<b>1,952</b>	<b>50,000</b>	<b>88,212</b>
Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation	1682	Substance Misuse Action Plan Fund	28,725	0	28,725		-140		28,585	Agreed technical transfers
	<b>Total Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation</b>			<b>28,725</b>	<b>0</b>	<b>28,725</b>	<b>0</b>	<b>-140</b>	<b>0</b>	<b>28,585</b>
Food Standards Agency	0380	Food Standards Agency	3,610	0	3,610		1,500		5,110	Agreed technical transfers
	<b>Total Food Standards Agency</b>			<b>3,610</b>	<b>0</b>	<b>3,610</b>	<b>0</b>	<b>1,500</b>	<b>0</b>	<b>5,110</b>
Public Health Programmes	0233	Health Promotion	9,071	0	9,071		3,133		12,204	Agreed technical transfers
	0232	Targeted Health Protection & Immunisation	5,870	0	5,870		722		6,592	Agreed technical transfers
	<b>Total Public Health Programmes</b>			<b>14,941</b>	<b>0</b>	<b>14,941</b>	<b>0</b>	<b>3,855</b>	<b>0</b>	<b>18,796</b>
Health Improvement	0231	Health Improvement & Healthy Working	8,514	0	8,514		870		9,384	Agreed technical transfers
	<b>Total Health Improvement</b>			<b>8,514</b>	<b>0</b>	<b>8,514</b>	<b>0</b>	<b>870</b>	<b>0</b>	<b>9,384</b>
Effective Health Emergency Preparedness Arrangements	0230	Health Emergency Planning	6,025	0	6,025		-18		6,007	Agreed technical transfers
	<b>Total Effective Health Emergency Preparedness Arrangements</b>			<b>6,025</b>	<b>0</b>	<b>6,025</b>	<b>0</b>	<b>-18</b>	<b>0</b>	<b>6,007</b>
Develop & Implement R&D for Patient & Public Benefit	0260	Research and Development	42,075	0	42,075		470		42,545	Agreed technical transfers
	<b>Total Develop &amp; Implement R&amp;D for Patient &amp; Public Benefit</b>			<b>42,075</b>	<b>0</b>	<b>42,075</b>	<b>0</b>	<b>470</b>	<b>0</b>	<b>42,545</b>
Social Care and Support	0460	Safeguarding & Advocacy	2,365	0	2,365				2,365	
	0661	Older People Carers & People with Disabilities	2,197	0	2,197		1,473		3,670	Agreed technical transfers
	<b>Total Social Care and Support</b>			<b>4,562</b>	<b>0</b>	<b>4,562</b>	<b>0</b>	<b>1,473</b>	<b>0</b>	<b>6,035</b>
Partnership & Integration	0620	Partnership & Integration	227	0	227				227	
	0700	Care Sector	299	0	299				299	
	<b>Total Partnership &amp; Integration</b>			<b>526</b>	<b>0</b>	<b>526</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>526</b>
Sustainable Social Services	0920	Sustainable Social Services	12,715	0	12,715		45,000		99,715	Agreed technical transfers Draft Budget: additional Social Services funding
	<b>Total Sustainable Social Services</b>			<b>12,715</b>	<b>0</b>	<b>12,715</b>	<b>0</b>	<b>45,000</b>	<b>42,000</b>	<b>99,715</b>
Social Care Wales	0582	Social Care Wales	22,613	0	22,613			3,000	25,613	Draft Budget: additional Social Services (Social Care Wales) funding
	<b>Total Social Care Wales</b>			<b>22,613</b>	<b>0</b>	<b>22,613</b>	<b>0</b>	<b>3,000</b>	<b>3,000</b>	<b>25,613</b>
Supporting Children	0310	Support for Childcare and Play	80,251	0	80,251			15,500	95,751	Draft Budget: Allocation of funding Childcare Offer.
	0311	Support for Children's Rights	991	0	991			29	1,020	Draft Budget: Allocation of £0.29m in 2022-23 in respect of children's rights and funding towards Children in Wales.
	0410	Supporting Children	3,865	0	3,865				3,865	
	1085	Support for Families and Children	7,004	0	7,004			971	7,975	Draft Budget: Allocation of £0.971m in 2022-23 supporting a range of programmes aimed at helping children and parents.
<b>Total Supporting Children</b>			<b>92,111</b>	<b>0</b>	<b>92,111</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>16,500</b>	<b>108,611</b>	
CAFCASS Cymru	1268	CAFCASS Cymru	13,652	0	13,652		1,073		14,725	Agreed technical transfers
	<b>Total CAFCASS Cymru</b>			<b>13,652</b>	<b>0</b>	<b>13,652</b>	<b>0</b>	<b>1,073</b>	<b>0</b>	<b>14,725</b>
<b>HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL RESOURCE BUDGET</b>			<b>9,227,959</b>	<b>-445,000</b>	<b>8,782,959</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,018,819</b>	<b>9,801,778</b>	